CO19077 Troetffordd Windsor Road

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch cynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Windsor Road. Mae pryderon wedi eu codi am ddiogelwch cerddwyr yn y lleoliad hwn, a'r diffyg troetffordd parhaus. I ymateb i hyn, mae swyddogion y Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau o ran gwneud gwelliannau a fydd yn helpu i greu amgylchedd priffordd mwy diogel.

Y prif faterion o ran diogelwch ffyrdd a nodwyd oedd diffyg troetffordd barhaus a olyga fod cerddwyr yn cerdded ar y lôn gerbydau.

Mae'r cynllun hwn wedi ei ddatblygu felly i greu troetffordd newydd drwy gulhau'r lôn gerbydau.

Bydd y mesurau'n creu amgylchedd fwy diogel i gerddwyr, yn benodol ar gyfer defnyddwyr sy'n agored i niwed a disgyblion ysgol, a byddant yn gwella hygyrchedd at yr ardal gymunedol ac at wasanaethau bws.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a allai fod gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod awgrymiadau ar gyfer gwelliannau eraill gennych i gynyddu diogelwch ar hyd Windsor Road. O ganlyniad i gyfyngiadau ar arian efallai na allwn newid y cynlluniau hyn ryw lawer ar yr adeg hon, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau rydym yn eu derbyn i'w hymgorffori yng nghynlluniau'r dyfodol.

Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau am y cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn 03/02/20 drwy e-bost: mailto:TransportProjects@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Lleoedd Croesi i Gerbydau Mae lle croesi i gerbydau yn eich galluogi i gael mynediad at eich eiddo mewn modd cyfreithiol, diogel a hawdd pan ydych yn defnyddio car neu gerbyd domestig arall. Mae hyn yn golygu bod cyrbau'n cael eu gostwng ("cwrbyn isel") i lefel y lôn gerbydau a bod y droedffordd, neu lain ymyl, yn cael ei chryfhau i ddal pwysau'r cerbydau sy'n ei chroesi. Mae'n drosedd i yrru ar

droedffordd oni bai bod lle croesi i gerbydau wedi'i awdurdodi a'i osod. Yn ogystal â rhesymau diogelwch, gallech ddifrodi'r droedffordd neu unrhyw bibellau neu geblau sydd wedi'u claddu o dan y droedffordd. Mae'r lle croesi yn eich galluogi i basio'n ddiogel o'r lôn gerbydau, gan beidio â rhwystro'r briffordd.

Fel rhan o'n cynlluniau gwella, mae'n bosibl darparu lle croesi newydd i gerbydau, yn amodol ar y telerau ac amodau angenrheidiol. Ond, rhaid i'r rheiny sy'n ceisio lle croesi i gerbydau gael Cytundeb Priffordd gennym o flaen llaw. Yn dibynnu ar sut y mae'r ffordd wedi'i Dosbarthu, efallai y bydd yn angenrheidiol cael Caniatâd Cynllunio hefyd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.caerdydd.gov.uk

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.
Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn **03/02/2020** drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

CARDIFF
CAERDYDD



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.
Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **03/02/2020** by email to TransportProjects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects, Room 301, County Hall, Cardiff, CF10 4UW

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.
Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn **03/02/2020** drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

CARDIFF
CAERDYDD



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.
Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **03/02/2020** by email to TransportProjects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects, Room 301, County Hall, Cardiff, CF10 4UW